BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

OCPA REGULATED

ajtc
Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd **Pwyllgor Cymru**
Administrative Justice & Tribunals Council **Welsh Committee**
Hyrwyddo Cyfiawnder Gweinyddol
Advancing Administrative Justice

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## CADEIRYDD PWYLLGOR CYNGOR CYFIAWNDER GWEINYDDOL A THRIBIWNLYSOEDD CYMRU CADEIRYDD: £26,938 Y FLWYDDYN AM YMRWYMIAD AMSER O 65 DIWRNOD Y FLWYDDYN

Ni thelir pensiwn ar gyfer y penodiad hwn

**Y Cefndir:** Bydd Pwyllgor Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru yn ffurfio ar 1 Mehefin 2008. Pwrpas y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yw adolygu systemau cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd ac ymchwiliadau yn rheolaidd, gan geisio sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr drwy ddarparu gwasanaeth agored, teg, diduedd, effeithlon, amserol sy'n hawdd ei ddefnyddio.

O 1 Chwefror 2008 penodir Cadeirydd y Pwyllgor Cymreig i'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ("y Cyngor") ei hun. Bydd y Pwyllgor Cymreig yn cwrdd yng Nghaerdydd a bydd y Cyngor yn cwrdd yn Llundain. Bydd y Cadeirydd yn rhoi arweiniad i'r Pwyllgor ac yn cymryd yr awenau o ran diffinio ei raglen waith a'i brosesau.

Bydd rhaid i'r ymgeiswyr ddangos bod ganddynt sgiliau cyfathrebu/rhyngbersonol profedig a'u bod yn gallu meddwl yn strategol. Rhaid bod ganddynt hefyd hanes llwyddiannus o arweiniad a dealltwriaeth o gyfiawnder gweinyddol a dulliau o sicrhau cyfiawnder i ddinasyddion.

Yn ôl Deddf Datgymhwysiad T 'r Cyffredin, mae bod yn aelod o'r Cyngor hwn yn eich datgymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad, yn Aelod Seneddol ac yn Aelod o Senedd Ewrop. Os ydych yn un o'r rhain, felly, ni chewch eich ystyried ar gyfer y swyddi dan sylw.

**Aelodau pwyllgor - datganiadau o ddiddordeb:** yn 2008, bydd y Pwyllgor Cymreig yn recriwtio 3 aelod newydd. Caiff aelodau dâl cadw o £6,160 ar sail ymrwymiad amser o 22 diwrnod y flwyddyn. Os hoffech gofnodi datganiad o ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r Pwyllgor Cymreig (p'un a ydych yn bwriadu ymgeisio am swydd Cadeirydd ai peidio), anfonwch eich manylion i'r cyfeiriad isod. Mae'r cyfweliadau ar gyfer y swyddi hyn yn debygol o gael eu cynnal ym mis Ebrill 2008.

Ni ystyrir penodi Gweision Sifil i'r Cyngor nac i'r Pwyllgor Cymreig. Mae'n bosibl yr ystyrir penodi aelodau o dribiwnlysoedd a oruchwylir gan y Cyngor os cytunant i beidio â chymryd rhan yng ngwaith y tribiwnlys yn ystod cyfnod eu penodiad.

Mae'n bolisi gan Lywodraeth y Cynulliad i hybu ac integreiddio cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys penodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau o blith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, cymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu parchu a chaiff y penodiadau eu gwneud ar sail teilyngdod.

**I gael pecyn cais a mwy o fanylion, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ rhif ffôn: (029) 2082 3416/5375; neu rif ffacs: (029) 2082 3356; neu e-bost: publicappointments@wales.gsi.gov.uk Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 18 Hydref 2007. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. Disgwylir i'r cyfweliadau ar gyfer Cadeirydd gael eu cynnal ar 13 Rhagfyr 2007.**

**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i fod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal da.**

**Mae fersiynau print bras, Braille a sain o'r hysbyseb hon ar gael drwy ffonio 029 2082 6869.**

## CHAIR OF THE WELSH COMMITTEE OF THE ADMINISTRATIVE JUSTICE AND TRIBUNALS COUNCIL CHAIR: £26,938 PER ANNUM FOR AN ANNUAL TIME COMMITMENT OF 65 DAYS

This appointment is non-pensionable

**Background:** The Welsh Committee of the Administrative Justice and Tribunals Council (AJTC) is due to come into being on 1 June 2008. The purpose of the AJTC is to keep under review the administrative justice system and the working of tribunals and inquiries, seeking to ensure they meet the needs of users through the provision of an open, fair, impartial, efficient, timely and accessible service.

The Chair of the Welsh Committee will be appointed to the AJTC (The Council) itself as from 1 February 2008. The Welsh Committee will meet in Cardiff and the Council will meet in London. The Chair will provide leadership to the Committee and take the lead in defining its work programme and processes.

Applicants must demonstrate proven communication/interpersonal skills and strategic thinking. They must also have a proven record of leadership and an understanding of administrative justice and forms of citizen redress.

Council membership is a disqualifying office listed in the House of Commons Disqualification Act. Serving AMs, MPs and MEPs will therefore not be considered for these appointments.

**Committee members – expressions of interest:** In 2008, the Welsh Committee will be recruiting 3 new members. Members will be paid a retainer of £6,160 based on an annual time commitment of 22 days. If you would like to record an expression of interest in membership of the Welsh Committee (whether or not you intend to seek appointment as the Chair), please send your details to the address below. Interviews for these posts are likely to take place in April 2008.

Serving Civil Servants will not be considered for appointment either to the Council or to the Welsh Committee. Members of tribunals under the Council's oversight may be considered for appointment if they agree not to sit in their tribunal capacity for the duration of their appointment.

It is the policy of the Welsh Assembly Government to promote and integrate equality of opportunity into all aspects of its business including appointments to public bodies. It welcomes and encourages applications from groups currently under-represented including women, minority ethnic communities and disabled people. The principles of fair and open competition will apply and appointments will be made on merit.

**For an application pack and further details, please contact Public Appointments Unit, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ telephone on (029) 2082 3416/5375, fax on (029) 2082 3356 or email: publicappointments@wales.gsi.gov.uk The closing date for receipt of applications is 18 October 2007. Application forms received after this date will not be considered. It is expected to hold interviews for the Chair on the 13 December 2007.**

**The Welsh Assembly Government is committed to being a good Equal Opportunities Employer.**

**A large print, Braille or audio version of this advert can be obtained by request from 029 2082 6869.**

**www.cymru.gov.uk - www.wales.gov.uk**


EURO RSCG RILEY

4

19/9/07 12:19 pm | 21/9/07 5:09 pm

**015848.indd**

Client: **Welsh Assembly**
Trim Size: **230 mm x 199 mm** Ad Size: **None**
Insertion Date: **27/9/07**
Media: **Western Mail / Daily Post (Wales)**

A/H: **Laura**
Mac Op: **Lisa | ext 3436**
Colour/Mono: **Mono**

File: BIR_Prod:Volumes:BIR_Prod:Cardiff:1_Work Files:09 - September 2007:Welsh Assembly:015848.indd
Font: Syntax